

Rhif: WG35830



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llywodraeth Cymru
Dogfen Ymgynghori

Parchu eraill

Ysbrydoli hawliau, parch a chydraddoldeb

Dyddiad cyhoeddi: 12 Tachwedd 2018
Camau gofynnol: Ymatebion erbyn 15 Chwefror 2019

Parchu eraill

Trosolwg

Ym mis Hydref 2011, fe wnaethom ni gyhoeddi *Parchu eraill*, cyfres o ganllawiau gwrth-fwlio cynhwysfawr sy'n rhoi sylw i bum maes allweddol – bwlio ar sail hil, diwylliant a chrefydd; bwlio rhywiaethol, rhywiol a thrawsffobig; bwlio homoffobig; bwlio sy'n ymwneud â dysgwyr ag anabledau ac anghenion addysgol arbennig; a seiberfwlio.

Rydym wedi cynnal gweithgareddau ymgysylltu anffurfiol sylweddol gyda rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, awdurdodau lleol, ymarferwyr addysg a sefydliadau trydydd sector. Mae'r ymgysylltu cynnar hwn wedi llywio'r canllawiau drafft diwygiedig. Roedd meysydd a nodwyd i'w gwella trwy'r ymgysylltu cychwynnol hwn yn cynnwys adlewyrchu gwahanol newidiadau ers cyhoeddi'r canllawiau gwreiddiol, megis newidiadau yn y gyfraith a pholisi a datblygiadau mewn agweddau cymdeithasol a sicrhau bod y canllawiau newydd yn glir, yn gyson ac yn hawdd i bob defnyddiwr eu deall.

Diben yr ymgynghoriad hwn yw cael barn rhanddeiliaid, gan gynnwys plant a phobl ifanc, rhieni/gofalwyr, ymarferwyr addysg, gwasanaethau cyhoeddus a sefydliadau gwirfoddol a thrydydd sector, i sicrhau bod y canllawiau newydd yn diwallu anghenion pob defnyddiwr.

Sut i ymateb

Dylai ymatebion i'r ymgynghoriad hwn gael eu hanfon mewn e-bost/drwy'r post i'r cyfeiriad isod erbyn **15/02/2019** fan bellaf.

Rhagor o wybodaeth a dogfennau cysylltiedig

Gellir gwneud cais am fersiynau o'r ddogfen hon mewn print bras, mewn Braille neu mewn ieithoedd eraill.

Mae'r dogfennau ymgynghori ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.llyw.cymru/ymgynghoriadau <<http://www.llyw.cymru/ymgynghoriadau>>

Manylion Cysylltu I gael rhagor o wybodaeth:

Cangen Cefnogi Cyflawniad a Diogelu
Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Y Gyfarwyddiaeth Addysg
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
e-bost: CCD.SAS@gov.wales



@WG_Education



Facebook/EducationWales

Y Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data (GDPR)

Llywodraeth Cymru fydd y rheolydd data ar gyfer unrhyw ddata personol a ddarperir gennych fel rhan o'ch ymateb i'r ymgynghoriad. Mae gan Weinidogion Cymru bwerau statudol y byddant yn dibynnu arnynt i wneud penderfyniadau gwybodus ynglŷn â sut y maent yn arfer eu swyddogaethau cyhoeddus. Bydd unrhyw ymateb a anfonwch atom yn cael ei weld yn llawn gan staff Llywodraeth Cymru sy'n ymdrin â'r materion y mae'r ymgynghoriad hwn yn ymwneud â nhw neu sy'n cynllunio ymgynghoriadau'r dyfodol. Lle mae Llywodraeth Cymru yn cynnal dadansoddiad pellach o'r ymatebion i'r ymgynghoriad, gall y gwaith hwn gael ei gomisiynu i'w gyflawni gan drydydd parti achrededig (e.e. sefydliad ymchwil neu gwmni ymgynghori). Bydd unrhyw waith o'r fath yn cael ei gyflawni o dan contract yn unig. Mae telerau ac amodau safonol Llywodraeth Cymru ar gyfer contractau o'r fath yn amlinellu gofynion caeth ar gyfer prosesu data personol a'i gadw'n ddiogel.

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn briodol, mae Llywodraeth Cymru yn bwriadu cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i'r ddogfen hon. Efallai y byddwn yn cyhoeddi ymatebion yn eu cyfanrwydd hefyd. Fel arfer, mae enw a chyfeiriad (neu ran o gyfeiriad) y person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael eu cyhoeddi gyda'r ymateb. Os nad ydych am i'ch enw neu eich cyfeiriad gael ei gyhoeddi, nodwch hynny ar bapur pan fyddwch chi'n anfon eich ymateb. Yna, byddwn yn tynnu'r manylion hyn cyn cyhoeddi'r ymateb.

Dylech fod yn ymwybodol hefyd o'n cyfrifoldebau o dan ddeddfwriaeth Rhyddid Gwybodaeth.

Os bydd eich manylion yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r ymateb i'r ymgynghoriad, bydd yr adroddiadau hyn yn cael eu cadw am gyfnod amhenodol. Ni fydd unrhyw ddata arall a gedwir gan Lywodraeth Cymru yn cael ei gadw am fwy na thair blynedd.

Eich hawliau

O dan ddeddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i wneud y canlynol:

- cael gwybod pa ddata personol sydd gan Lywodraeth Cymru amdanoch, a chael gweld y data hwnnw
- gofyn i ni gywiro unrhyw ddata anghywir
- gwrthwynebu neu gyfyngu ar brosesu'r data (dan rai amgylchiadau)
- gofyn i'ch data gael ei ddileu (dan rai amgylchiadau)
- gofyn am gludadwyedd data (dan rai amgylchiadau)
- cyflwyno cwyn i Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth, sef y rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer diogelu data.

I gael rhagor o fanylion am y wybodaeth sydd gan Lywodraeth Cymru a sut mae'n cael ei defnyddio, neu os ydych am ymarfer eich hawliau o dan GDPR, mae'r manylion cyswllt isod:
Swyddog Diogelu Data:
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Manylion cyswllt Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth:
Wycliffe House
Water Lane
Wilmslow
Swydd Gaer
SK9 5AF

Ffôn: 01625 545 745 neu
0303 123 1113
Gwefan: <https://ico.org.uk/>

e-bost: Data.ProtectionOfficer@gov.wales

Cynnwys

Rhagair gan y Gweinidog	2
Canllawiau Gwrth-fwlio	3
Beth yw'r prif faterion?	3
Ble rydym ni nawr?	3
Pa newidiadau a gynigir?	3
Cynigion	4
Ymgynghoriad	4

Rhagair gan y Gweinidog

Mae trechu bwlio mewn ysgolion yn flaenoriaeth allweddol i mi. Rwyf wedi ymrwymo i sicrhau bod ein holl ddysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn cael y cymorth sydd ei angen arnynt i gyflawni eu potensial llawn. Mae gan bob plentyn yr hawl i gael addysg ac i gael ei drin yn gyfartal. Dylai disgyblaeth mewn ysgolion barchu urddas plant a phobl ifanc a'u hamddiffyn rhag unrhyw weithgareddau a allai niweidio eu datblygiad.

Nod Llywodraeth Cymru yw trechu bwlio mewn ffordd gyfannol, gan fynd i'r afael ag achosion ymddygiad annerbyniol a chreu amgylchedd cynhwysol ac ysgogol sy'n rhoi blaenoriaeth i lesiant fel bod dysgwyr yn teimlo'n ddiogel ac yn barod i ddysgu. Mae'n hollbwysig bod plant a phobl ifanc yn cael eu haddysgu, gartref ac yn yr ysgol, am greu a meithrin perthynas barchus; dyma gonglfaen ymddygiad cadarnhaol. Dim ond trwy weithio tuag at y nod cyffredin hwn y byddwn ni'n gwneud cynnydd go iawn tuag at drechu bwlio yn ein hysgolion.

Mae yna achos cryf dros adolygu *Parchu eraill*, yn bennaf oherwydd y newidiadau polisi a deddfwriaethol ehangach ers i'r canllawiau hyn gael eu cyhoeddi yn 2011. Wrth ddiwygio'r canllawiau, rwyf eisiau sicrhau bod plant, pobl ifanc, rhieni/gofalwyr, gwasanaethau addysg a'r rhai sy'n cefnogi plant a phobl ifanc yn glir ynglŷn â'r hawliau sydd gan bob plentyn, yn ogystal â'r cyfrifoldebau sydd gan weithwyr proffesiynol.

Er mwyn i'r canllawiau newydd hyn fod yn gwbl effeithiol, mae'n hollbwysig bod plant a phobl ifanc yn rhan o'r ymgynghoriad hwn – rwyf eisiau clywed eu barn ar yr hyn sydd ei angen. Rwy'n ddiolchgar i Gomisiynydd Plant Cymru am ei chymorth yn ennyn diddordeb plant a phobl ifanc yn y broses ymgysylltu cynnar ac am gynhyrchu *Stori Sam*, sydd wedi llywio i'r gwaith o ddrafftio'r canllawiau diwygiedig. Bydd ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant a phobl ifanc yn parhau i gael sylw amlwg wrth i ni symud tuag at y cam nesaf o ddatblygu'r canllawiau newydd.

Edrychaf ymlaen at dderbyn eich ymatebion a pharhau i wneud cynnydd gyda'n gilydd er mwyn sicrhau ysgolion cryf a chynhwysol sydd wedi ymrwymo i ragoriaeth, tegwch a llesiant.

Kirsty Williams AC
Ysgrifennydd y Cabinet dros Addysg

Canllawiau gwrth-fwlio

Beth yw'r prif faterion?

Yn ystod 2016-2018, cynhaliodd Llywodraeth Cymru weithgarwch ymgysylltu anffurfiol eang gyda phartneriaid a rhanddeiliaid allweddol, gan gynnwys: ysgolion; awdurdodau lleol; ymarferwyr addysg; Estyn; Comisiynydd Plant Cymru; a phlant a phobl ifanc, i bennu pa newidiadau y dylid eu gwneud i ganllawiau gwrth-fwlio i sicrhau eu bod yn dal i fod yn effeithiol ac yn hawdd eu defnyddio.

Nododd yr adborth y dylai'r canllawiau diwygiedig:

- ddarparu mwy o eglurder ynglŷn â'r hyn a ystyrir yn fwlio a'r hyn na ystyrir yn fwlio;
- amlinellu rolau a chyfrifoldebau ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, rhieni/gofalwyr a dysgwyr;
- cael mwy o gyhoeddusrwydd fel eu bod yn hysbys i gynulleidfaoedd allweddol;
- bod yn llai beichus ac ailadroddus fel nad yw gwybodaeth allweddol yn 'mynd ar goll' yn y ddogfen;
- bod yn hawdd eu defnyddio o ran cynnwys a diwyg;
- amlinellu'n glir a chryno sut maent yn cysylltu â pholisïau ehangach Cymru, y DU a rhyngwladol, ac yn cael eu cefnogi gan y polisïau hynny;
- darparu mwy o eglurder ynglŷn â threfniadau adrodd, casglu data a monitro;
- cael eu hategu gan adnoddau a leolir mewn lle hygyrch a chanolog i helpu i roi'r canllawiau ar waith yn ymarferol.

Ble rydym ni arni nawr?

Yng ngoleuni'r adborth hwnnw, daeth Llywodraeth Cymru i'r casgliad bod angen mynd i'r afael â'r materion canlynol:

- mae angen datrys yr amwysedd a'r anghysondebau o fewn rhai o'r darpariaethau yn y canllawiau gwreiddiol;
- mae angen egluro rolau a chyfrifoldebau ysgolion, cyrff llywodraethu, awdurdodau lleol, rhieni/gofalwyr a dysgwyr;
- mae angen mwy o eglurder ynglŷn â beth yw dyletswyddau statudol o gymharu ag arferion gorau;
- sicrhau bod bwlio yn cael ei drin mewn ffordd fwy cyfannol gyda datblygiadau polisi ehangach, sydd wedi bod ar waith ers 2011, a'r effaith ar bolisi gwrth-fwlio a adlewyrchir yn y canllawiau;
- targedu canllawiau at gynulleidfaoedd allweddol yn hytrach na mynd i'r afael â bwlio yn ôl nodwedd i osgoi dyblygu a glastwreiddio negeseuon allweddol;
- cydweithredu ag arbenigwyr ac ymarferwyr sy'n gweithio ym maes llesiant plant a gwrth-fwlio i ddatblygu'r canllawiau diwygiedig.

Pa newidiadau a gynigir?

Mae'r materion allweddol rydym eisiau mynd i'r afael â nhw wrth ddiwygio'r canllawiau wedi'u hamlinellu isod:

- Cynhyrchu canllawiau cliriach, haws eu deall sy'n targedu'r cynulleidfaoedd allweddol canlynol:
 - Ysgolion;
 - Llywodraethwyr ysgol;
 - Awdurdodau lleol;
 - Rhieni/gofalwyr;
 - Plant a phobl ifanc.
- Esbonio'r agweddau allweddol yn gliriach – er enghraifft, y rhai sy'n ymwneud â'r canlynol:
 - beth yw bwlio;
 - beth nad yw'n fwlio;
 - pwy ddylai fod yn gyfrifol am fynd i'r afael â bwlio mewn lleoliadau ysgol a thu hwnt;
 - beth i'w wneud os ydych chi'n poeni bod rhywun yn cael ei fwlio;
 - adrodd/cofnodi/monitro bwlio;
 - strategaethau atal ar gyfer herio ymddygiad bwlio
 - hawliau plant;
 - rolau a chyfrifoldebau o ran mynd i'r afael â bwlio mewn ffordd gyfannol;
 - deddfwriaeth sy'n sail i wrth-fwlio.
- Sicrhau bod y canllawiau'n cwmpasu pob math o fwlio, er enghraifft, mynd i'r afael â bwlio yn ôl nodweddion gwarchoddedig, gan amlinellu cymorth wedi'i deilwra ar gyfer helpu i herio ac atal y mathau hyn o fwlio.
- Trechu bwlio mewn ffordd fwy cyfannol, gan sicrhau bod y canllawiau'n adlewyrchu polisi a diwygiadau ehangach sydd eisoes ar waith neu a fydd yn cael eu rhoi ar waith yn y dyfodol – er enghraifft, rhoi Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 ar waith. Bydd y canllawiau'n adlewyrchu ein hymagwedd at degwch a llesiant, gan hyrwyddo ymagweddau ysgol gyfan a pherthnasoedd cadarnhaol.
- Cynnwys adnoddau gwrth-fwlio yn y canllawiau, a chyfeirio atynt, i helpu ysgolion i roi'r polisi ar waith ar lefel weithredol.

Y Cynigion

Yn seiliedig ar ymgysylltu cychwynnol a'r adborth a gafwyd o'r ymgysylltu hwnnw, fel yr amlinellir uchod, rydym wedi diwygio'r canllawiau gwrth-fwlio, a'r canllawiau drafft hyn yw pwnc yr ymgynghoriad hwn.

Nid newid y gofynion a amlinellir mewn deddfwriaeth yw bwriad y cynigion yn yr ymgynghoriad hwn. Yn hytrach, dylai'r canllawiau hyn egluro'r gofynion sydd eisoes ar waith.

Yr Ymgynghoriad

Diben yr ymgynghoriad yw penderfynu a yw'r canllawiau i blant a phobl ifanc drafft a'r canllawiau i ysgolion a detholiad o adnoddau ategol ar gyfer ysgolion yn diwallu anghenion y cynulleidfaoedd allweddol. Ein nod yw bod mewn sefyllfa i gyhoeddi'r gyfres gyfan o ganllawiau – sy'n targedu plant a phobl ifanc, ysgolion, cyrff llywodraethu ysgolion,

rhieni/gofalwyr ac awdurdodau lleol, ynghyd â'r adnoddau ategol – cyn haf 2019. Bydd yr adborth a geir o'r ymgynghoriad hwn ar y canllawiau i blant a phobl ifanc a'r canllawiau i ysgolion yn cael ei ddefnyddio i lywio'r canllawiau eraill yn y gyfres.